

MDF Recovery

Proffil y Cwmni

Mae MDF Recovery yn ddatblygwr technoleg, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu proses batent newydd i adfer ffibrau o fwrdd ffibr dwysedd canolig (MDF) sy'n wastraff. Caiff dros 200,000 tunnell o wastraff MDF ei gynhyrchu yn y Deyrnas Unedig yn unig, a chaiff ei losgi neu ei anfon i safleoedd tirlenwi ar ôl ei ddefnyddio unwaith.

Nod MDF Recovery yw datrys y broblem hon drwy sefydlu cyfleuster ailgylchu MDF cyntaf y Deyrnas Unedig ar raddfa fasnachol, ochr yn ochr â thrwyddedu ei dechnoleg ym mhob cwr o'r byd. Gall y ffibrau sy'n cael eu hadfer o'u proses newydd yna gael eu hailintegreiddio i'r broses o gynhyrchu MDF, neu eu defnyddio fel porthiant ar gyfer amrywiaeth o gymwysiadau diwydiannol gwerth uchel. Mae MDF Recovery yn cynnig ateb ecolegol gwell i broblem gwaredu MDF, gan gynhyrchu ffynhonnell newydd o ddeunyddiau crai i'r diwydiant pren a ffibrau naturiol, sydd yn ei dro'n lleihau'r galw ar ffibrau newydd a gynhyrchir o goedwigoedd byw.

Cydweithio â BEACON

Mae MDF Recovery wedi cydweithio â BEACON drwy Brifysgolion Aberystwyth a Bangor. Mae'r offer maint peilot yn y Ganolfan BioGyfansoddion, Mona, wedi helpu MDF Recovery i nodweddu a phrosesu'r ffibrau sydd wedi'u hadfer ganddynt.



Hefyd, mae BEACON wedi cynorthwyo â nifer o dreialon ymarferol i ddangos effeithiolrwydd ffibrau fel deunydd crai ar gyfer cynhyrchion arloesol newydd.

“ Mae BEACON wedi cynorthwyo MDF Recovery i brofi ac optimeiddio ein technolegau newydd mewn amser byr iawn, rhywbeth na allai'r un sefydliad arall ei gynnig. Mae MDRF yn gwmni newydd sy'n ymdrechu i gyflwyno cyfleoedd ailgylchu dolen gaeedig i gadwyni cyflenwi gweithgynhyrchu ac adwerthu sefydledig. Mae cyfraniad y prifysgolion yn pwysleisio hygrdedd MDRF ymhlith y partneriaid masnachol hyn. ”
Craig Bartlett, Cyfarwyddwr

Bu cydweithrediad diweddaraf BEACON â MDF Recovery ym Mhrifysgol Aberystwyth i archwilio cymhwyso rhywfaint o'r offer maint peilot sydd ar gael yng nghyfleuster BEACON i reoleiddio cynnwys lleithder y ffibrau sydd wedi'i hadennill drwy broses MDF Recovery. Nod BEACON oedd archwilio, trwy ddefnyddio technoleg gwasg sgriwio, a ellid cyflawni'r allbwn cynnwys lleithder optimwm ar gyfer y porthiant, ar lefel sy'n briodol ar gyfer prosesu ymhellach mewn cymwysiadau penodol yn y farchnad ddiwydiannol. Gall optimeiddio'r cynnwys lleithder yn y deunyddiau wedi'u prosesu ostwng costau ynni, ac felly lleihau ôl troed carbon y broses ailgylchu gyfan.



Am fwy o wybodaeth: www.mdfrecovery.co.uk/